**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Prydau ysgol am ddim i bob disgybl

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2021
Petitions Committee | 13 September 2021

**Cyfeirnod:** RS21/0497-8

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1178

**Teitl y ddeiseb:** Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau a ganlyn ar unwaith

- Diwygio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim fel bod unrhyw blentyn mewn unrhyw deulu sy'n cael y Credyd Cynhwysol neu gyfwerth yn gymwys.

- Ymestyn yn barhaol yr hawl i deuluoedd sy'n methu cael arian cyhoeddus gael prydau ysgol am ddim.

- Cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol fabanod

Fel y cam cyntaf tuag at ddarparu prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl o oedran ysgol yng Nghymru.

# 1. Ymgyrch i ymestyn meini prawf cymhwysedd, a chyd-destun y pandemig COVID-19

Mae'r mater o gymhwysedd o ran prydau ysgol am ddim wedi cael cryn sylw yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig. Mae **Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid** yn ystod y pandemig i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol. Bydd hyn yn para hyd at y Pasg 2022.

Bu ymgyrch i ymestyn cymhwysedd am brydau ysgol am ddim i bob disgybl sy'n byw mewn teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol ac o bosibl i bob disgybl. Mae’r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (**papur briffio ym mis Hydref /mis Rhagfyr 2020** ac **adroddiad ym mis Awst 2021**) a Sefydliad Bevan (**costau** ac **ystyriaethau ymarferol**) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn.

Mae diben deublyg i brydau ysgol am ddim yn bennaf. Yn gyntaf, osgoi caledi ariannol i deuluoedd a darparu pryd o fwyd i blant na all eu teulu ei fforddio'n hawdd, ac yn ail i gefnogi eu canlyniadau addysgol. Mae’r dystiolaeth yn gymharol gymysg o ran buddion prydau ysgol am ddim o ran cyrhaeddiad addysgol, fel y mae’r erthygl **'Ffeithiau Llawn'** hon a gyhoeddwyd yn 2017 yn egluro.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae **Rhaglen Lywodraethu 2021-26** Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i:

> Parhau i fodloni’r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy’n deillio o’r pandemig ac yn adolygu’r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau’n caniatáu.

Mae llythyr y Gweinidog yn dweud bod **yr adolygiad hwn bellach wedi dechrau**, a dechreuwyd ar y gwaith o gasglu data a nodi ei strwythur a’i gwmpas, ac ystyriwyd gwaith ymchwil a thystiolaeth. Dywedodd y Gweinidog wrth y **Senedd ar 14 Gorffennaf** ei fod **yn disgwyl i'r adolygiad gael ei gwblhau yn yr hydref**, a bydd yn darparu diweddariad i'r Aelodau ar ddechrau tymor newydd y Senedd ym mis Medi.

O ran y cwestiwn ysgrifenedig **WQ81850**, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, rai **amcangyfrifon o gostau** ymestyn cymhwysedd prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn cartrefi sy'n cael Credyd Cynhwysol, yn ogystal â phob disgybl ysgol gynradd. Roedd y rhain yn seiliedig ar niferoedd a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn 2020 (nodwch fod y rhain wedi cynyddu yn 2021).

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cafwyd dadl dan arweiniad Plaid Cymru ar brydau ysgol am ddim yn y **Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf 2021**

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.